sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

# Llwyfannau rhannu fideos: pwy sydd angen hysbysu Ofcom?

## Canllawiau drafft er ymgynghori: Trosolwg

**YMGYNGHORIAD:**

Dyddiad cyhoeddi: 19 Tachwedd 2020
Dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion: 14 Ionawr 2021

# Trosolwg

**Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno**

- Daeth rheoliadau newydd sy’n berthnasol i wasanaethau llwyfannau rhannu fideos (VSP) sydd wedi’u sefydlu yn y DU i rym ar 1 Tachwedd 2020. O 6 Ebrill 2021 ymlaen, bydd yn rhaid i ddarparwyr VSP yn awdurdodaeth y DU gyflwyno hysbysiad ffurfiol o’u gwasanaeth i Ofcom (‘hysbysu’). Rydym yn ymgynghori ar ganllawiau sy’n ceisio helpu darparwyr i ddeall a ydynt yn dod o fewn cwmpas y diffiniad o VSP at ddibenion Deddf Cyfathrebiadau 2003.
- Mae’r canllawiau’n canolbwyntio ar y meini prawf sy’n ffurfio diffiniad o VSP yn y Ddeddf Cyfathrebiadau. Fe’u darperir i helpu darparwyr gwasanaethau i asesu:
    - ai prif bwrpas y gwasanaeth, y gwasanaeth cyfan neu ran benodol ohono (‘rhan ddatgysylltiol’), yw darparu fideos i’r cyhoedd;
    - ai darparu fideos i'r cyhoedd yw swyddogaeth hanfodol y gwasanaeth;
    - a yw’r gwasanaeth neu’r rhan ddatgysylltiol yn cael ei darparu drwy rwydwaith cyfathrebu electronig;
    - a yw’r gwasanaeth neu’r rhan ddatgysylltiol yn cael ei darparu ar sail fasnachol;
    - a yw’r gwasanaeth neu’r rhan ddatgysylltiol yn cael ei darparu gan unigolyn sydd â rheolaeth gyffredinol dros drefnu fideos, ond nid dros ba fideos sydd ar gael i ddefnyddwyr; ac
    - a yw darparwr y gwasanaeth neu’r rhan ddatgysylltiol o fewn awdurdodaeth y DU.
- Mae’r meini prawf yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 yn cael eu dilyn ar ffurf gynyddol. Mae’r holl feini prawf yn bwysig wrth wneud asesiad a dylid rhoi sylw gofalus iddynt.
- Bydd angen i ddarparwyr ystyried a yw’r meini prawf yn berthnasol i’w gwasanaeth cyfan neu i ‘ran ddatgysylltiol’ ohono.
- Pan fydd gan ddarparwr reolaeth dros ba fideos sydd ar gael ar ei wasanaeth, byddai hyn yn awgrymu y bydd angen iddo hysbysu, fel gwasanaeth rhaglenni ar-alw.
- Mae’r canllawiau hyn hefyd yn nodi pryd a sut y disgwylir i ddarparwr hysbysu, ac yn rhoi syniad am y broses a’r wybodaeth sydd eu hangen.

## Pwrpas yr ymgynghoriad hwn

1.1 Rydym yn gofyn am sylwadau ar ein canllawiau arfaethedig er mwyn helpu darparwyr i ddeall:

a) a ydynt yn darparu gwasanaeth sy’n ddarostyngedig i’r fframwaith statudol ar gyfer gwasanaethau llwyfan rhannu fideos (VSP) o dan Ran 4B Deddf Cyfathrebiadau 2003; a

b) pryd a sut y gallai fod angen iddynt roi gwybod i Ofcom am eu gwasanaeth.

1.2 Cyfeiriwch at y ddogfen ymgynghori lawn sydd ar gael yma er mwyn gweld ein canllawiau drafft.

1.3 Rydym yn gwahodd rhanddeiliaid, gan gynnwys gwasanaethau a allai ddod o fewn cwmpas y rheoliad, y diwydiant a chyrff trydydd sector, a phartïon eraill sydd â diddordeb, i roi sylwadau ar y canllawiau drafft a nodir ym mhenodau 2 i 5 y ddogfen ymgynghori. Bydd y penodau hyn, ynghyd â throsolwg diwygiedig, yn ffurfio'r canllawiau annibynnol pan fyddant wedi cael eu cwblhau'n derfynol. Mae rhestr lawn o gwestiynau'r ymgynghoriad ar gael yn Atodiad 5 y ddogfen ymgynghori. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw **5pm ar 14 Ionawr 2021.**

## Y camau nesaf

1.4 Ar ôl ystyried yr ymatebion, rydym yn bwriadu cyhoeddi canllawiau terfynol ym mis **Mawrth 2021** cyn i rwymedigaeth darparwyr i hysbysu am wasanaeth VSP ddod i rym ar **6 Ebrill 2021**. Bydd gan ddarparwyr presennol fis i roi gwybod am eu gwasanaethau erbyn **6 Mai 2021.** Rydym yn cyfeirio at y cyfnod hwn fel 'y cyfnod hysbysu'.

1.5 Byddwn yn ymgynghori ar y canllawiau ar niwed a mesurau priodol ar wahân, ar ddechrau 2021, gyda'r nod o'u cyhoeddi yn yr haf 2021. Ymgynghorir ar y canllawiau ar ofynion hysbysebu, yn ogystal â'r drefn gorfodi ar gyfer hysbysebu ar VSPs, yn gynnar yn 2021 ac fe'u cyhoeddir erbyn yr haf 2021.

1.6 Mae modd i ddarparwyr anfon e-bost at Ofcom yn VSPRegulation@ofcom.org.uk os oes ganddynt unrhyw gwestiynau am y gofynion o ran hysbysu a chwmpas. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu cyngor cyfreithiol ac mae'n dal yn gyfrifoldeb ar bob darparwr i fodloni'r rhwymedigaethau cyfreithiol perthnasol o ran hysbysu.